# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
# COFNODION Y CYFARFOD MISOL RITHIOL
# A GYNHALIWYD AR NOS IAU 21/01/2021 AM 7.00pm

## 1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cafodd munud o dawelwch ei gynnal er cof am Mr Ceredig Morgan, brawd-yng-nghyfraith y Cyngh. Wil Lewis, a fu'n drist, farw'n ddiweddar.

## 2. YN BRESENNOL

Mervyn Botwwod (un o drigolion y pentref); Sonia Fletcher (un o drigolion y pentref); Y Gyngh. Clare Hughes; y Gyngh. Angharad Jones; y Cyngh. John Jones; y Gyngh. Laura Jones; Y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies, y Cyngh. Gareth Owen, Cyngh Doug Rowbotham & Eleri Thomas (Clerc).

## 3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd Y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd ac yn cysgodi), y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Wil Lewis (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd), y Cyngh. Alun Price-Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhynghrwyd ac yn cysgodi) am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

## 4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans dros y ffôn, yn ystod y cyfarfod na fu unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol, byrgleriaeth, niwed troseddol, lladrad na throseddau trais yn ystod y dau fis diwethaf. Roedd sgamiau ffôn ar gynnydd a gofynnwyd i'r cyhoedd fod yn wyliadwrus.

Cyhuddwyd troseddwyr mewn perthynas â photsio ysgyfarnogod yn yr ardal i gynnwys, mewn rhai achosion torri Rheoliadau Covid-19.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'i ddatgelu.

## 6. CADARNHAU CYFARFOD O'R 19eg O Dachwedd 2020

**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Angharad Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Doug Rowbotham) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y 19eg o Dachwedd 2020, yn gywir.

Arwyddir y Cofnodion fel rhai cywir, gan y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen pan fydd amgylchiadau'n caniatau.

## 7. MATERION YN CODI

**7.1 Pennu'r Praesept ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2021-22:** Trafodwyd Adroddiad y Gyllideb (ynghlwm). Cynigiodd y Gyngh. Angharad Jones i gadw'r Praesept yr un fath â'r flwyddyn flaenorol sef £7,212.11. Eiliwyd y Cynnig gan y Gyngh. Laura Jones. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cynnig hwn. Derbyniwyd cynnig pellach sef

cynyddu'r Praesept 1% ond ni oedd eilydd ar y cynnig.  Teimlwyd na ellid cyfiawnhau cynnydd yng ngoleuni'r Pandemig Covid-19 a'r heroin tebygol.

**7.2** **Diweddariad: Ymateb y Cyngor Cymuned i her y Pandemig Coronafeirws.** Anogodd y Cyngor Cymuned unigolion i fod yn wyliadwrus ac i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru.  Cyflwynwyd y brechlyn Rhydychen AstraZeneca eisoes yn yr ardal yng Nghanolfan Hamdden Tregaron yn ystod y dydd Sadwrn blaenorol, ar gyfer gweithwyr allweddol ac unigolion 80+.  Adroddwyd bod gostyngiad yn nifer y rhai a heintiwyd gan y feirws yn ystod yr wythnos flaenorol yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

**7.3** **Cynnal a Chadw Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen**
Arddangoswyd poster wrth fynedfa'r parc yn cynnwys argymhellion ar gyfer defnyddwyr y parc yn ymwneud â Covid-19.

**7.4** **Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg drwy'r ardal.  Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir.  Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir.  *Adroddwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf bod y perchennog sef Mr Alan Phillips wedi cysylltu â Marika sydd wedi crybwyll y bydd Malcolm yn symud y tanc*.  *Dim datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn.*

**7.5** **Trwsio'r fainc, Ffair Rhos**: y Cyngh. Gareth Owen a'r Cyngh. John Jones i glustnodi sylw i gyflwr y fainc**.  Dim Datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn**.  Ni gytunwyd yn ystod y cyfarfod cynt i geisio mainc newydd.

**7.6** **Adroddwyd yn ystod cyfarfod blaenorol** bod coed wedi gordyfu yng Nglan-yr-Afon.  Cytunwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw i gysylltu ag Adnoddau Naturiol Cymru i geisio grantiau i osod llwybr cerdded yng nghyffiniau Glanyrafon, gan arwain at y Bont Werdd.  Anfonodd Adnoddau Naturiol Cymru Bwletin Cyllideb, a oedd yn rhestru ffynonellau cyllid, y gellid ymchwilio iddynt.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Mr Mervyn Botwood yn cwestiynu'r angen am lwybr cerdded newydd arfaethedig ar ochr ddeheuol Afon Teifi pan oedd llwybr cerdded, er mewn cyflwr truenus yn ymestyn o'r grid gwartheg i Heol yr Abaty a Stryd y Dderwen.

Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i ailystyried y cynnig oherwydd y llwybr cerdded parod a'r materion amgylcheddol megis draenogod, llygod y dŵr, brogaod, llyffantod a madfallod ac ati.  Byddai'r cynnig yn caniatau mynediad wrth gefn i'r eiddo ac o ganlyniad yn cynyddu eu bregusrwydd mewn perthynas â throseddau.  Byddai angen gwaith cynnal a chadw fel tocio coed a thorri gwair ar gyfnodau penodol ar y llwybr hwn; dylai'r gwaith hwn gael ei gyflawni gan weithiwr proffesiynol gan ystyried yr amgylchedd yn ofalus.  Teimlwyd nad oedd torri glaswellt yn cael unrhyw effaith ar reoli plâu.

Atgoffwyd y Cyngor Cymuned o gynnig tebyg flynyddoedd lawer yn ôl ar ochr ogleddol Afon Teifi.  Arweiniodd at ddinistr coed gan gynnwys coeden dderwen hynafol yng nghyffiniau'r Bont Werdd.  Gan fod aelodau'r Cyngor Cymuned a oedd heb fod â phresenoldeb ar-lein wedi methu darllen gohebiaeth Mr Botwood (a anfonwyd drwy e-bost 21.01.2021 pm) penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

**7.7** **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**: yn ceisio diweddaru holl diffibrilwyr lleol a gofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i archwilio cyflwr y diffibrilwyr a'u uwchlwytho i'r Gylchdaith. https//www.thecircuit.uk. Holwyd am yr *App* ar gyfer Ceredigion. Cytunwyd i ddarganfod ble roedd diffibrilwyr wedi'u lleoli'n y Gymuned. Y Cyngh. Doug Rowbotham i ymwneud â'r dasg. Lleolir diffibriliwr ger Neuadd Pantyfedwen a Siop y Pentref. Nid oedd yn sicr os oedd diffibriliwr ar gael ger yr Abaty.

**7.8** **Costau'n gysylltiedig ag atgyweirio ffens y Parc:** Grant *Cynnal y Cardi*: Mae'r Gyngh. Clare Hughes yn clustnodi sylw i'r mater.

**7.9** **Llwybrau Cerdded:** Roedd y Gyngh. Clare Hughes wedi derbyn ymholiadau gan drigolion y pentref ynghylch cyflwr y llwybr cerdded o'r Bont Werdd i'r Grid Gwartheg. Derbyniwyd ymateb gan Mr Haydn Lewis, Ceidwad Ffordd Tramwy a Chefn Glwad, Cyngor Sir Ceredigion yn nodi nad oedd y llwybr cerdded wedi'i gynnwys ar y rhestr flaenoriaeth oherwydd amgylchiadau Covid-19. Search hynny, y gobaith yw rhoi sylw i'r llwybr yn ystod haf 2021.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Cofrestrfa Tir EM – Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru**
Gan weithio law yn llaw â Llywodraethau Cymru a'r DG, mae Cofrestrfa Tir EM yn gyfrifol am gofrestru'r holl dir cyrff sector cyhoeddus erbyn 2025, ac yna'r holl dir sydd mewn dwylo preifat erbyn 2030.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o gasglu data atodwyd arolwg a ddatblygwyd gan Gofrestrfa Tir EM ar y cyd ag Un Llais Cymru.

Mae'r arolwg ar gael yn https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160406652244

**Y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg yw 26 Chwefror 2021. Penderfynwyd cwblhau'r arolwg. (Clerc)**

**8.2** **Datblygiadau Menter Mynyddoedd Cambrian**
Diweddariad o'r gwaith dros y cyfnod diweddar; cyfnod heriol i gymunedau a busnesau a phawb sydd wedi gorfod delio'n union-gyrchol gyda feirws COVID-19.

Maent wedi ymroi i gefnogi gymaint o fusnesau â phosib drwy gynnig cyngor, arweiniad a digwyddiadau rhithiol i gynnal diddordeb a hyder. Mae'r gwaith Menter Mynyddoedd Cambrian yn parhau ac wedi derbyn estyniad i'w gwaith.
drwy haelioni Cynghorau Sir Powys, Ceredigion a Sir Gâr a bydd cynllun gwaith newydd ar gynnig ar gyfer 2021.

Serch yr anhawsterau sylweddol eleni cyflawnwyd y canlynol:

- Llyfryn Canllaw i Fynyddoedd Cambrian.
- Canllaw i Wybren Dywyll Mynyddoedd Cambrian.
- Erthygl ar lein-"Wythnos Ym Mynyddoedd Cambrian".
- Ffilm Tirweddau Mynyddoedd Cambrian.
- Cwblhau gwaith ymchwil tirweddol.
- Datblygu y gwefan a chyfryngau cymdeithasol

**8.3 Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion parthed yr ymholiad ynglŷn â'r coed ym Maesydderwen, Pontrhydfendigaid.** Roedd Mr Jon Hadlow, Cyngor Sir Ceredigion wedi archwilio'r dderwen y tu allan i 22/23 Maesyddrwen ar yr 28.10.2020 ac ni ddaeth ar draws unrhyw ddiffygion gweledol ar y goeden nac ar y glaswellt cyfagos a fyddai'n dangos bod y goeden mewn cyflwr peryglus neu'n anniogel. O ganlyniad roedd wedi argymell tocio brig y goeden mewn ymgais i unioni'r gwaith y gorffennol, heb awdurdod. Disgwylir ymwneud â'r gwaith yn ystod y gaeaf. *Penderfynwyd atgofio'r Cyngor Sir o'r bwriad.*

**Parthed y goeden sy'n sefyll ger rhif 9 Maesydderwen** cyfrifoldeb *Tai Ceredigion* yw'r darn yma o dir bellach; trosglwyddwyd i Dai Ceredigion fel rhan o'r trosglwyddiad stoc ym 2008.

**8.4 Adeilad ger y Rock House a'r Ysgol, Pontrhydfendigaid.** Adroddwyd mewn cyfarfod cynt bod carafanau statig, bysys ac eitemau eraill yn amlwg ar dir ger ardal Rock House, Pontrhydfendigaid. Roedd aelodau o'r farn ei fod yn tynnu oddi ar ymddangosiad y Pentref ac yn meddwl y byddai angen caniatâd cynllunio. Adroddodd Cyngor Sir Ceredigion fod Swyddog wedi ymweld â'r safle a'i fod mewn trafodaeth gyda'r perchennog i wella ymddangosiad y tir. Gan fod y perchnogion yn ymgymryd â phrosiect hunan-adeiladu mae'r hawl ganddynt i fyw ar y tir yn ystod y datblygiad. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymwybodol o gyflwr annerbyniol y safle. *Cytunodd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies i gysylltu â'r Swyddog Gorfodi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu ffordd ymlaen.*

**8.5 Holodd Mr Mervyn Botwood via ebost** y rheswm pam y byddai'n cael ei dorri allan yn ystod cyfarfodydd rithiol Zoom y Cyngor Cymuned ar ôl 30 munud. Eglurodd iddo bod y Cyngor Cymuned wedi dewis pecyn Zoom rhad ac am ddim, sy'n golygu'r angen i fewngofnodi bob 30 munud. Byddai'n bosibl uwchraddio i'r fersiwn taliedig oddeutu £12 y mis ond roedd aelodau o'r farn na gyfiawnhad y taliad ar gyfer un cyfarfod y mis, fel mesur dros dro, yn ystod cyfnod clo Covid19.

**8.6 Gohebiaeth pellach: er gwybodaeth.**

## 9. CYLLID

**9.1 Cyflog y Clerc Tachwedd & Rhagfyr 2020**: £193.83 x 2 (Cyflog Gross).
**9.2 Panel Archwilio Cymru**: Archwilio'r Cyfrifon 2019-20 £465.25
**9.3 Panel Archwilio Cymru**: Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwilio cymwysedig i Gyngor Cymuned Ystrad Fflur. Manylion ar gael: **www.ccystradfflurcc.org.uk/2019-2020/**
**9.4 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** derbyniwyd taliad eisoes £319.98
**9.5 Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfod y dyfodol.

## 10. CYNLLUNIO

**10.1 Cyf: 3260696: Ymgynghoriad Ffurfiol:** Gwaith ar Dir Comin. CL67 Rhos Gell-Gron, Ceredigion. Gofynnodd Arolygiaeth Gynllunio Cymru am sylwadau pellach mewn perthynas â Datganiad yr Ymgeisydd erbyn 31 Ionawr 2021.

Cytunwyd i ddatgan bod y consyrn cynt a gyflwynwyd gan y Cyngor Cymuned yn sefyll.

**10.2 Cais Cynllunio A200971. Ymgeisydd:** Hyfforddiant Arfau Tanio Rees a Venables WMS**. Lleoliad:** Bwlchyddwyallt, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY26 6EL. **Cynnig:** Cadw cysgodfan dalen pren a phroffil bocs. **Dyddiad derbyn gan y Cyngor Cymuned** 18.12.2020.

**Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiadau** (a ddirprwywyd i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan fod angen ymateb rhwng Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned).

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Holodd y Cynghorydd Clare Hughes** tybed a oedd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am yswiriant ar gyfer arwyddion y Pentref. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol amdanynt. Cytunodd y Cynghorydd Sir Ifan Lloyd Davies i geisio gwybodaeth pellach dan law Mr Tom Delph Januirek, Cyngor Sir Ceredigion.

**11.2 Adroddwyd bod polyn drydan** yn ansefydlog yn ardal chwarae Pantyfedwen. **CYTUNWYD** i adrodd ar y mater at sylw *Western Power Distribution.*

**11.3 Adroddodd y Gyngh. Laura Jones fod deialog FB** diweddar yn cwmpasu materion goryrru yn y Pentref a gofynnwyd a ellid cyflwyno cyfyngiadau cyflymder pellach o 30mya i 20mya a mesurau gostegu traffig. Gellir cyfeirio at Bapur Gwyn sydd wedi'i ddrafftio gan Lywodraeth Cymru.

**11.4 Anogodd y Gyngh. Laura Jones aelodau ac unigolion i gefnogi'r ddeiseb ar-lein yn galw am gyllid teg ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru**
"Rydym yn galw am gyllid teg gan Lywodraeth Cymru i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, un o lyfrgelloedd mawr y byd, ystorfa o drysorau hanesyddol, artistig a deallusol Cymru. Heb fwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, bydd 30 o swyddi'n cael eu torri a gwasanaethau'n cael eu cwtogi'n ddifrifol. Gwerthoedd dynol sylfaenol yw rhyddid, ffyniant a datblygiad cymdeithas ac unigolion, a gyflawnir gan ddinasyddion gwybodus sydd â mynediad diderfyn i feddwl, diwylliant a gwybodaeth.

Er mwyn sicrhau bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr i bawb, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gynyddu ei chymorth ariannol, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn borth i wybodaeth, gan ddarparu dysgu gydol oes. Ni ellir disgwyl i lyfrgelloedd gynhyrchu eu hincwm eu hunain yn yr un modd â busnesau."

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nos Iau 18fed Chwefror 2021 @7pm Lleoliad: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen neu Gyfarfod Rithiol yn unol â Chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru.**

================================================= (Arwyddwyd / Dyddiad)